CANLLAWIAU POLISI OEDRAN

- Ni ellir cyflwyno cerbydau i'w trwyddedu am y tro cyntaf os oes mwy na 5 mlynedd ers eu dyddiad cofrestru cyntaf;

- Yr unig eithriad i'r uchod yw bod yn rhaid i gerbydau o fath Bws Mini sydd â lifftiau codi awtomataidd parhaol a gyflwynir i'w trwyddedu am y tro cyntaf fod yn llai na 10 mlwydd oed o ddyddiad y cofrestriad cyntaf;

- Bydd cerbydau hyd at 10 oed ar adeg gwneud cais yn cael eu profi ddwywaith y flwyddyn;

- Bydd cerbydau dros 10 oed ar adeg gwneud cais yn cael eu profi deirgwaith y flwyddyn;

- Bydd y Gwasanaethau Fflyd yn cyhoeddi Tystysgrif MOT a Ffurflen Datganiad Cymhwysedd sy'n cwmpasu'r elfennau sy'n arbennig i dacsis a cherbydau hurio preifat nad ydynt wedi'u cynnwys yn y broses MOT;

- Bydd cerbydau'n cael eu profi yn unol â'r Gymdeithas Gludiant – Safonau Arolygu Cenedlaethol ar gyfer Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

- Os byddwch yn methu â chyflwyno cais am adnewyddu trwydded cerbyd mewn pryd, cyhyd â bod cais wedi'i gwblhau yn dod i law o fewn pum niwrnod i'r dyddiad dod i ben, caiff y gofyniad i gyflwyno cerbyd i'r Pwyllgor ei hepgor.

- Rhaid i geisiadau am gerbydau wedi'u haddasu y tu allan i gategori cymeradwyo Math o Gerbyd M1 gynnwys hanes gwasanaeth llawn ac ardystiad diogelwch priodol gan gynnwys Tystysgrif Cymeradwyo Cerbydau Unigol Gwirfoddol (IVA) a gyhoeddir gan yr Asiantaeth Safonau Gyrru a Cherbydau (DVSA).

- Os oes gennych unrhyw amheuaeth ynghylch a yw cerbyd yn dod o fewn canllawiau polisi, anfonwch e-bost atom am gyngor cyn i chi ymrwymo'n ariannol.

Chwefror 2021